Cyfarfu'r Cyngor Cymuned ar Ionawr 17 2019, am 7 o'r gloch yn Neuadd Santes Ursula.

Presennol :- Huw Griffith, Angharad Evans, Dylan Davies, Islwyn Jones, Fred Jones, Lyn Davies, y Cynghorydd Rowland Rees-Evans a'r clerc
Ymddiheuriad :- Morgan Morgan, Margaret Lewis.
Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn Codi
Biniau Halen. Adroddwyd bod dau wedi eu gosod yn eu lle a gofynnwyd i'r clerc holi ymhellach ynghyn â'r lleill y crybwyllwyd amdanynt.
Hysbysfwrdd. Heb gael pris oddi wrth Burrell hyd yn hyn.
Gwartheg ar y mynydd. Nid oedd y Cyngor yn hapus gyda'r ymateb negyddol o'r Cyngor Sir. Byddid yn gwneud ymholiadau pellach yn lleol.
Tâl am y neuadd. Y mater i'w godi yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Neuadd.
Sedd wâg. Croesawyd Anhgarad Evans, Rhos fach sydd wedi cytuno i roi cynnig arni.
Cerbyd tu allan i Tŷ Rowan. Wedi cael ei symud oddi yno.

Gohebiaeth
Gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu Rhagfyr a Ionawr a chopi o Clerks and Councils Direct
Gwasanaeth Tân ac Achub. Llenwyd ei ffurflen diweddaru gwybodaeth.
Derbyniwyd cyfraniad oddi wrth edf energy o £1625.
e-byst
Taliadau S137 £7.86 y pen ar hyn o bryd yn codi i £8.12 y pen 2019/20.
Cyfarfod rhwng y Swyddog Monitro a Chlercod. Cytunwyd i'r clerc fynychu'r cyfarfod
Diweddariad am yr arolwg o'r sector Cynghorau Cymuned a Thref.

Sôn ynddo am ddarparu pecyn o hyfforddiant craidd ar gyfer cynghorwyr, a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol a digidol i ymgysylltu â'r gymuned
Comisiwn y Gyfraith yn cynnig diwygiadau technegol i'r Gyfraith Cynllunio.
Llanwyd Ymgynghoriad/holiadur ar doiledau cyhoeddus.
Cyfarfod Codi Ymwybyddiaeth o'r Côd Ymddygiad ar gyfer pob Cynghorydd a chlerc. Nid oedd yn gyfleus i unrhyw un fynd i un o'r ddau gyfarfod ar y dyddiadau a gynigiwyd.
Datganiad yr Archwilydd Cyffredinol – Safon Rheoli Arian yn siomedig. Trafodwyd y ffordd oriau i ddelio gyda chyfrif rhif 2 y Cyngor gan nad arian y Cyngor yw hwn ond arian y Gymuned sy'n cael ei weinyddu gan y Cyngor. Gofynnwyd i'r clerc geisio cyngor Swyddog o'r Cyngor Sir, neu Un Llais Cymru

Ariannol

Dim bil wrth yr archwilwyr allanol hyd yn hyn (£182.75)
Cytunwyd i ofyn i Anthony Morgan fod yn archwilydd mewnol eleni eto.
Awdurdodwyd talu cyflog clerc ddiwedd y mis. £200 o'r cyfrif cyfredol a £100 o gyfrir rhif 2.
Bil goleuadau dros nos wedi ei dalu i'r Cyngor Sir - £52.96
Bil terfynol wrth Scottish Power, am 1 diwrnod - 50ceiniog
Trafodwyd amcangyfrif cyllideb 2019/20 gan ystyried y codiad yng nghyflog y clerc a'r gostyngiad yn y taliadau trydan a phenderfynu gofyn am £3120 yn ogystal â'r grant mynwentydd arferol.
Cyfrif Cyfredol 31 Rhagfyr - £2838.40
Cyfrif 2 £30576.48
Ceisidau am gyfraniad ariannol oddi wrth Y Ddolen a'r Eisteddfod Genedlaethol. Trafodwyd oblygiadau cais yr Eisteddfod ond penderfynwyd gadael y ceisiadau i gyd i'w hystyried gyda'i gilydd y mis nesaf. Nodwyd y bydd gofyn i bob cymdeithas a sefydliad wneud cais ysgrifenedig, cyn diwedd Ionawr, am gymorth ariannol o'r flwyddyn nesaf ymlaen.
Cyfarfod nesaf Chwefror 21 2019